

## Canllawiau ynghylch rhybuddion a gyhoeddir gan Arholwyr Achosion a'r Pwyllgor Ymchwilio o dan ddarpariaethau Rheolau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (Addasrwydd i Ymarfer) 2013

### Cyflwyniad

1. Mae Rheolau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (Addasrwydd i Ymarfer) Gorchymyn y Cyngor 2013 ("y Rheolau") yn gwneud darpariaeth i archwilwyr achos a'r Pwyllgor Ymchwilio ystyried honiadau o amhariad ar addasrwydd i ymarfer yn erbyn cofrestrai a gwneud nifer o benderfyniadau, ac un o'r rheini yw rhoi rhybudd i'r cofrestrai.
2. Nod y canllawiau hyn yw cynorthwyo gwneuthurwyr penderfyniadau ymchwiliol y Cyngor Optegol Cyffredinol (yr archwilwyr achos a'r Pwyllgor Ymchwilio) i benderfynu pryd y mae'n briodol rhoi rhybudd. Pwrpas y canllawiau yw annog gwneud penderfyniadau cyson a phriodol, gan gydnabod bod yn rhaid i bob achos gael ei benderfynu ar sail ei ffeithiau ei hun.
3. Dylid ystyried y ddogfen hon yng nghyd-destun y prif ganllawiau ar gyfer archwilwyr achos, y Pwyllgor Ymchwilio a'r Canllawiau ar Sanctsiynau Dangosol ar gyfer y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (FTPC).
4. Mae rhybuddion ar gael yn y cam ymchwilio a cham dyfarnu'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Yn ystod y cam ymchwilio, *dim ond* pan benderfynwyd na ddylid cyfeirio'r mater i'r FTPC y gellir rhoi rhybuddion. Ar y cam dyfarnu, dim ond pan fydd canfyddiad wedi dod i'r casgliad *nad oes* amhariad ar addasrwydd y cofrestrai i ymarfer y gellir eu rhoi.
5. Wrth ystyried cwyn am Addasrwydd i Ymarfer cofrestrai, mae gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau nifer o opsiynau. Gallant gyfeirio'r cofrestrai at y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (FTP) am wrandawriad ffurfiol i'r honiadau; gallant wahodd y cofrestrai i gael Asesiad Perfformiad neu Asesiad Iechyd; gallant gyfarwyddo na ddylid cymryd unrhyw gamau; gallant roi rhybudd; neu gallant ohirio tra chynhelir ymchwiliadau pellach.

## **Pryd fydd rhybudd yn cael ei ystyried?**

6. Bydd rhybudd yn cael ei ystyried pan fydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn fodlon nad yw'r ymddygiad neu'r perfformiad honedig yn cyrraedd y trothwy ar gyfer y prawf rhagolygon realistig ar gyfer atgyfeirio i'r FTPC. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod eu ymddygiad neu berfformiad wedi disgyn islaw'r safon a ddisgwylir ac i'r graddau bod cyfiawnhad dros ymateb ffurfiol gan y Cyngor Optegol Cyffredinol.

Dyma enghreifftiau o adegau lle gellid ystyried bod rhoi rhybudd yn briodol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Lle byddai'r materion y cwynir amdanynt, pe profir hwy, yn dangos methiant sylweddol i fodloni cymwyseddau craidd y Cyngor Optegol Cyffredinol neu i ddilyn Codau Ymddygiad y Cyngor Optegol Cyffredinol neu'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y cyrff proffesiynol, ond lle na fyddai angen cyfyngu ar gofrestriad y cofrestrai;
- Lle na fyddai'r materion y cwynir amdanynt, os profir hwy, yn gyfystyr ag amhariad ar addasrwydd i ymarfer, ond os cânt eu hailadrodd, gall hynny fod yn gyfystyr â hynny;
- Lle mae achos pryder sylweddol yn dilyn asesiad perfformiad, ond nad oes angen cyfyngu ar gofrestriad y cofrestrai;
- Lle bo'r cofrestrai yn derbyn ei fod ef neu hi wedi ymddwyn yn amhriodol ond y gall ddangos nad yw hyn yn debygol o ddigwydd eto;
- Lle bo'r cofrestrai yn derbyn bod ei safonau ef neu hi wedi disgyn islaw lefel dderbyniol ond mae'n gallu dangos nad yw hyn yn debygol o ddigwydd eto,

Mae rhoi rhybudd yn benderfyniad a fydd yn cael ei wneud ar sail rhinweddau pob achos unigol.

7. Nid yw rhybudd yn debygol o fod yn addas os oes anghydfod sylweddol ynghylch y ffeithiau. Y rheswm am hyn yw na ddylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddatrys gwrthdaro rhwng tystiolaeth. Ni fydd y mater hwn yn codi os nad yw'r ffeithiau'n destun anghydfod, neu os yw'r cofrestrai wedi derbyn rhybudd gan yr heddlu (ac felly wedi cyfaddef y trosedd sylfaenol) neu os yw'r honiad yn seiliedig ar euogfarn droseddol.

8. Mewn achosion lle byddai'r dystiolaeth, pe bai'n cael ei phrofi, yn awgrymu risg barhaus o niwed i gleifion, ni fydd rhoi rhybudd yn briodol. Ni fydd rhybudd ychwaith yn briodol mewn achos sy'n ymwneud â salwch honedig cofrestrai yn unig. Er y gall rhybuddion fod yn briodol mewn achosion lle mae'r cofrestrai yn derbyn ei fod wedi ymddwyn yn amhriodol neu islaw safon berthnasol, nid yw cyfaddefiad o'r fath yn rhwystr i'r Pwyllgor Ymchwilio gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer.
9. Pan fydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn fodlon bod y pryderon a godwyd yn ddigon difrifol i fynnu ymateb ffurfiol ar ffurf rhybudd, rhaid iddynt hefyd ystyried budd y cyhoedd.
10. Os bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn penderfynu nad oes angen rhybudd, gallant roi cyngor i gofrestrai pan fydd yr achos wedi'i gau. Nid oes gan gyngor o'r fath unrhyw statws ffurfiol, dim ond cyngor ydyw. Gall cyngor ymwneud ag ymddygiad yn y dyfodol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), gan gynnwys cyngor ar drin cleifion anfodlon yn briodol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddrafftio'r cyngor yn ofalus er mwyn bod yn glir nad ydynt yn rhoi rhybudd. Mae rhybudd yn ymateb ffurfiol gan y GOC i honiad o dan Adran 13D y Ddeddf Optegwyr sy'n cael ei gofnodi yn erbyn cofrestriad y cofrestrai yn y gofrestr, tra bod cyngor yn sylw anffurfiol ar y mater gan yr archwilwyr achos. Bydd geiriad clir hefyd yn atal trydydd parti sy'n anghyfarwydd â gweithdrefnau'r Cyngor Optegol Cyffredinol rhag camddehongli'r penderfyniad. Lle bo'n briodol, gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau hefyd gynnwys sylwadau cadarnhaol yn eu cyngor.

### **Beth yw pwrpas rhybudd?**

11. Mae rhybuddion yn caniatáu i'r GOC ddangos i gofrestrai fod ymddygiad neu ymarfer penodol yn gwyro oddi wrth y safonau a ddisgwylir gan ei gofrestreion ac na ddylid eu hailadrodd. Dylid eu hystyried yn ymateb ffurfiol a difrifol.

12. Mae'n tynnu sylw'r cofrestrai at gamau y gall eu cymryd yn briodol i leihau'r risg o fod yn destun cwyn neu weithredu FTP yn y dyfodol, boed hynny drwy wella eu safonau proffesiynol neu osgoi ymddygiad penodol.
13. Mae'n caniatáu i'r GOC fonitro unrhyw batrymau o gwynion a allai ddod i'r amlwg mewn perthynas â chofrestrai. Mae gan y GOC ddyletswydd statudol i ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd a rhaid iddo fod yn ymwybodol o batrymau ymddygiad a allai roi'r cyhoedd mewn perygl, neu danseilio enw da'r proffesiynau optegol, yn enwedig pan fydd cyfnod o amser rhwng digwyddiadau.
14. Ar ben hynny, maent yn tynnu sylw'r proffesiwn ehangach at y ffaith bod ymddygiad penodol yn annerbyniol.

### **Beth sy'n digwydd pan fydd rhybudd yn cael ei roi?**

15. Cyn y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau roi rhybudd, rhoddir cyfle i'r cofrestrai gyflwyno sylwadau ysgrifenedig pellach iddynt, ar ôl cael gwybod am natur y rhybudd sy'n cael ei ystyried. Rhaid derbyn y sylwadau hyn o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad yr ysgrifennwyd atynt. Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan gofrestrai a phenderfynu a ddylid rhoi rhybudd yn yr amgylchiadau penodol ai peidio.
16. Os bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, ar ôl ystyried sylwadau'r cofrestrai, yn penderfynu rhoi rhybudd, bydd y cofrestrai yn cael y rhybudd hwn yn ysgrifenedig. Bydd y llythyr yn egluro'r materion a arweiniodd at y pryder. Gall y llythyr gynnwys cyngor gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch ymddygiad, hyfforddiant neu safonau perfformiad yn y dyfodol. Argymhellion yn unig fydd y rhain ac ni fydd y GOC yn eu monitro nac yn ceisio gorfodi cydymffurfiaeth.
17. Bydd y ffaith bod rhybudd wedi'i roi yn cael ei gadarnhau i'r achwynydd gwreiddiol. Ni fydd rhybuddion yn cael eu cyhoeddi ac ni ddatgelir eu bodolaeth i ymholwyr ychwaith.

### **Rhoi rhesymau pan fydd rhybudd yn cael ei roi**

18. Fel sy'n ofynnol o dan Reol 12 (2) a Rheol 14 Rheolau Addasrwydd i Ymarfer Cyngor Optegol Cyffredinol (2013), rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau roi rhesymau dros eu penderfyniad i roi neu **beidio** â rhoi rhybudd.

## 19. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau *gofio*:

- Gall rhybudd gyflawni ei swyddogaeth dim ond os yw'r rhesymau a roddir yn hysbysu'r cofrestrai pam yr ystyrir bod y rhybudd yn angenrheidiol, ac yn benodol pa ymddygiad ar ei ran ef neu hi y cafwyd ei fod yn ddiffygiol.
- ar ôl ystyried y mater yn ofalus, os yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi dod i'r casgliad bod yr achos yn un lle nad oes anghydfod amlwg o ran tystiolaeth a bod sail briodol a rhesymegol iddynt dderbyn un fersiwn o'r digwyddiadau a gwrthod un arall, rhaid iddynt egluro pam y mae unrhyw anghydfod wedi'i ddatrys yn erbyn y cofrestrai (os mai dyna'r achos).
- Rhaid rhoi rhywfaint o fanylion i'r cofrestrai, pa mor fyr bynnag, beth sydd wedi'i ganfod yn ymddygiad y cofrestrai y mae angen mynd i'r afael ag ef, a pham y credir bod angen iddo ef neu hi fynd i'r afael â materion o'r fath o ganlyniad i'r honiad.
- Rhaid i'r cofrestrai gael gwybod yn glir pam y credir bod eu hymddygiad neu ei ymarfer yn ddiffygiol fel y gellir deall y camau y mae'n ofynnol iddynt eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffygion dan sylw, a'u gweld fel rhai y gellir eu cyfiawnhau.

## **Beth sy'n digwydd os oes cwyn arall yn erbyn y cofrestrai?**

20. Bydd rhybuddion mewn grym am bedair blynedd o'r dyddiad y cânt eu rhoi. Os bydd y cofrestrai yn destun cwyn arall o natur debyg o fewn y cyfnod hwnnw, bydd y penderfynwyr yn ystyried y gŵyn wreiddiol wrth benderfynu pa gamau, os o gwbl, i'w cymryd mewn perthynas â'r gŵyn newydd. Gwahoddir y cofrestrai i gyflwyno sylwadau ar berthnasedd y rhybudd blaenorol yng nghydestun y gŵyn newydd.

21. Wrth ystyried honiad newydd ochr yn ochr ag amgylchiadau rhybudd cynharach, mae'n agored i'r penderfynwyr adolygu'r penderfyniad i beidio â chyfeirio'r gŵyn gynharach at yr FTPC. Unwaith eto, mae hwn yn fater y bydd y cofrestrai yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau arno.

## **Am faint o amser mae rhybudd mewn grym?**

22. Bydd rhybudd mewn grym am bedair blynedd o'r dyddiad y caiff ei roi. Bydd yn dod i ben ar ôl i'r pedair blynedd hynny fynd heibio. Mae hyn yn golygu y bydd y rhybudd yn cael ei gofnodi yn erbyn cofrestriad y cofrestrai yn y gofrestr berthnasol am bedair blynedd o ddyddiad y llythyr rhybudd (ni fydd y rhybudd hwn yn

ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus).

23. Ar ôl i rybudd ddod i ben, ni fydd gan y penderfynwyr hawl ystyried ei fodolaeth flaenorol.